

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 23ain GORFFENNAF 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen,
B.Owen, J.W.Parry, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R. Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr W.R.Owen, K.Richards

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Dim.

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 5 – Effaith yr argyfwng Covid-19 ar fusnesau Caernarfon – Y
Cynghorydd J.W.Parry

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Digwyddiadau 2020 ar dir Cyngor Gwynedd

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor
Gwynedd oedd yn nodi:

- (1) Ei fod wedi ysgrifennu yn dilyn arweiniad gan dim Arweinyddiaeth y
Cyngor mewn perthynas â chynnal digwyddiadau torfol yn y Sir ac ar
dir y Cyngor rhwng nawr a diwedd Mis Mawrth 2021.
- (2) Yn wreiddiol bod y Cyngor wedi cytuno i gefnogi Hanner Marathon –
Run Wales 2020, sydd i fod i gychwyn a darfod ar y Maes yng
Nghaernarfon ar y 24ain o Fedi 2020. Hyd yma nid yw'r digwyddiad
yma wedi hysbysu eu bod yn bwriadu gohirio tan 2021, ac felly mae
cynlluniau i ddal i gynnal y digwyddiad yma yn 2020. Mae hyn er bod
rheolau Cymru ar hyn o bryd ddim yn caniatáu hyn.
- (3) Bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno erbyn hyn na fydd yn caniatáu y
digwyddiad uchod na digwyddiadau torfol ar dir y Cyngor rhwng nawr a
diwedd Mawrth 2021.
- (4) Bod hyn yn ddibynnol ar dderbyn teimladau'r cymunedau lleol, lle bydd
y digwyddiadau torfol yma yn cymryd lle.

- (5) Y gofynnir i'r Cyngor Tref ystyried os yn hapus i weld digwyddiad torfol yn cael eu cynnal yn y gymuned chi rhwng nawr a Mawrth 2021."
- (6) Os nad yw'r cymunedau lleol yn awyddus i weld y digwyddiadau yma i gymryd lle bydd angen i Gyngor Gwynedd eu hysbysu nad yw tir y Cyngor ar gael i gynnal digwyddiadau torfol yn 2020.

Penderfynwyd, gan nad yw rheolau Llywodraeth Cymru yn caniatáu digwyddiadau ar hyn o bryd, datgan nad yw'r Cyngor Tref yn gefnogol i'r Hanner Marathon, nag unrhyw ddigwyddiad arall, tan Mawrth 2021, oni bai fod y Rheolau'n newid.

5. Effaith yr argyfwng Covid-19 ar fusnesau Caernarfon

Nodwyd bod pryder am effaith yr argyfwng Covid-19 ar fusnesau Caernarfon, a bod y cyfarfod hwn wedi ei alw i drafod ymateb y Cyngor Tref i'r argyfwng, er mwyn rhoi cymorth i fusnesau lleol.

Nodwyd:

- (1) Bod hwn yn gyfnod anodd, a'i bod wedi bod yn amhosib cwblhau'r gwaith angenrheidiol yn y dref yn y misoedd diwethaf, yn bennaf gan Gyngor Gwynedd.
- (2) Ei bod yn hanfodol cael y dref yn ôl mewn cyflwr parchus yn yr wythnosau nesaf.
- (3) Y dylid blaenoriaethu canol y dref.
- (4) Bod gwarant wedi ei gael gan Gyngor Gwynedd, os oedd y Cyngor Tref yn ymwneud â dyletswyddau penodol ychwanegol yn y tymor byr, yna nad oedd Cyngor Gwynedd am dynnu yn ôl o'u dyletswyddau hwy wedi hynny.
- (5) Y dylid ystyried cydweithio efo Ymddiriedolaeth yr Harbwr o ran ardal y prom.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod Grant Cefnogi Busnes Covid-19 wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ar gyfer yr Institiwt. Roedd wedi gwneud ymholiadau o ran os oes unrhyw gyfyngiadau o ran sut gall y Cyngor Tref wario'r arian, a bod yr Uned Fusnes wedi ymateb drwy ddweud ei bod i fyny i ni yn hollol sut da chi'n gwario'r arian.
- (2) Os yn comisiynu contractwyr i wneud gwaith yn y dref er mwyn ymateb i'r argyfwng, rhaid oedd glynu at y Rheoliadau Ariannol, gan fod trothwy penodol o ran mynd allan am gwôt neu dendr.
- (3) Ei fod angen canfod y pennawd ariannol lle byddai'r arian ychwanegol, a'r gwariant, yn mynd.

Penderfynwyd (yn unfrydol):

- (1) **Bod y Cyngor Tref yn rhoi cynllun at ei gilydd i dacluso a gwella ymddangosiad y dref – ac yn sicrhau bod hynny'n digwydd yn ddiymdroi. Bod y Cyngor Tref yn rhoi cyfanswm o £25,000 o'r neilltu i ariannu hyn.**
- (2) **Bod y Cyngor Tref yn comisiynu 'Deep Clean' o'r strydoedd yng nghanol y dre, yn cynnwys y Promenâd.**

- (3) Bod y Cyngor Tref yn comisiynu contractwr lleol i fynd i'r afael â'r sbwriel sydd wedi ei ddympio yn anghyfreithlon mewn gwahanol rannau o'r dref.
- (4) Bod y Cyngor Tref yn comisiynu contractwr lleol i dorri llystyfiant lle mae angen gwneud hynny.
- (5) Bod y Cyngor Tref yn trefnu i'r graffiti sydd ar lawer o waliau'r dref gael ei lanhau.
- (6) Bod yr yr holl arosfeydd bysus yn y dref yn cael eu glanhau.
- (7) Bod y Cyngor yn cyflogi gweithiwr ychwanegol am gyfnod o 6 wythnos i gynorthwyo'r Swyddog Cynnal a Chadw efo'r gwaith codi sbwriel. Efo hyn, rhoi'r hawl gweithredol i'r Clerc a'r Swyddog Cynnal a Chadw weithredu er mwyn symud yn fuan yn hytrach na chael hysbyseb swyddogol.
- (8) Bod y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl, ond yn cyflogi busnesau o Gaernarfon lle mae hynny'n gyson efo'r angen i sicrhau ymateb cyflym.
- (9) Torri'r dref o mewn i barthau llai er mwyn cyflwani'r gwaith er enghraifft o ran glanhau.
- (10) Gofyn i'r Clerc gael gair efo HWB o ran tynnu'r basgedi crog i lawr.
- (11) Gofyn i'r Clerc anfon e-byst rheolaidd at yr aelodau yn gofyn lle roedd y problemau y neu hardaloedd, er mwyn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny.
- (12) Rhoi hawl i'r Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith i flaenoriaethu'r gwaith a llunio rhaglen.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.55 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad